

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

**Adroddiad Etifeddiaeth  
y Pedwerydd Cynulliad**

Mawrth 2016

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys ar ffurf Braille, fersiwn hawdd ei darllen, fersiwn print bras, fersiwn sain a chopi caled drwy gysylltu â ni:

**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**  
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Bae Caerdydd**  
**Caerdydd**  
**CF99 1NA**

Ar-lein: [www.cynulliad.cymru](http://www.cynulliad.cymru)  
E-bost: [SeneddSafonau@Cynulliad.Cymru](mailto:SeneddSafonau@Cynulliad.Cymru)  
Ffôn: **0300 200 6372**

Rydym yn croesawu galwadau a wneir drwy wasanaeth Text Relay.

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

**Adroddiad Etifeddiaeth  
y Pedwerydd Cynulliad**

Mawrth 2016

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales





# Cynnwys

<b>Rôl y Pwyllgor Safonau Ymddygiad .....</b>	<b>1</b>
Aelodaeth .....	1
Y Comisiynydd Safonau.....	2
<b>Adroddiadau i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9 .....</b>	<b>3</b>
<b>Adroddiadau'r Pwyllgor Safonau .....</b>	<b>4</b>
Adolygiad o'r gweithdrefnau safonau .....	4
Y weithdrefn gwynion.....	4
Sanctsiynau .....	5
Lobïo a grwpiau trawsbleidiol.....	5
Cofrestru a datgan buddiannau .....	7
<b>Edrych tuag at y Pumed Cynulliad .....</b>	<b>9</b>
Y cyfryngau cymdeithasol.....	9
Canllawiau i Aelodau sy'n ymwneud â materion cynllunio.....	9



# Rôl y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

1. Sefydlwyd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ("y Pwyllgor") ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor yw ymgymryd â'r swyddogaethau Rheol Sefydlog 22<sup>1</sup>. Mae'r rhain yn cynnwys: ymchwilio i gwynion a gyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau, ystyried unrhyw faterion o egwyddor ynglŷn ag ymddygiad Aelodau, sefydlu'r gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i gwynion a'r trefniadau ar gyfer y Gofrestr o Fuddiannau'r Aelodau a chofnodion cyhoeddus eraill a bennir gan y Rheolau Sefydlog.

## Aelodaeth

2. Ar ddiwedd y Pedwerydd Cynulliad, aelodaeth y Pwyllgor oedd:
  - John Griffiths AC (Cadeirydd)
  - Mark Isherwood AC
  - Llŷr Gruffydd AC
  - Eluned Parrott AC
3. Aelodau blaenorol y Pwyllgor oedd:
  - Mick Antoniw AC
  - Kirsty Williams AC
4. Hoffwn ddiolch i'r aelodau hyn am eu cyfraniad i waith y Pwyllgor Safonau yn ystod y Pedwerydd Cynulliad.
5. Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, cyflwynodd y Pwyllgor welliant i Reol Sefydlog 22 i ganiatáu i enwebu aelod amgen i gymryd rhan yn nhrefnion y gŵyn os yw aelod yn ddarostyngedig i gŵyn neu'n uniongyrchol gysylltiedig â hi. Enwebir yr aelod amgen yn unol â Rheol Sefydlog 22.4. Cafodd hyn ei gymeradwyo gan y Cynulliad ar 17 Mehefin 2015<sup>2</sup>, a ddaeth i rym ym mis Mehefin 2015.

*22.4A Rhaid i'r Cynulliad ethol eilydd o'r un grŵp gwleidyddol ar gyfer pob aelod o'r pwyllgor cyfrifol, at ddibenion Rheol Sefydlog 22.5.*

*22.5 Os bydd aelod o'r pwyllgor cyfrifol yn destun cwyn o dan Reol Sefydlog 22.2(i), neu os bydd wedi'i gysylltu'n uniongyrchol fel arall â chwyn o'r fath, ni chaiff gymryd rhan yn ystyriaeth y pwyllgor cyfrifol ar y gŵyn. O dan amgylchiadau o'r fath, ac mewn perthynas â'r ystyriaeth ar y gŵyn o dan sylw yn unig, caiff yr eilydd a etholwyd yn unol â Rheol Sefydlog 22.4A gymryd lle'r aelod hwnnw. Caiff yr eilydd gymryd rhan yng nghyfarfodydd y pwyllgor cyfrifol i ystyried y gŵyn fel pe bai'n aelod o'r Pwyllgor.<sup>3</sup>*

<sup>1</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Rheolau Sefydlog**, Rheol Sefydlog 22

<sup>2</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion 17 Mehefin 2015**, eitem 4

<sup>3</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Rheolau Sefydlog**, Rheol Sefydlog 22.2

**Argymhelliad 1.** Fel pwyllgor bach, mae enwebu aelodau amgen wedi amddiffyn rhag materion cworwm posibl wrth ystyried cwyn, ac rydym yn argymhell bod hyn yn parhau.

---

## Y Comisiynydd Safonau

6. Gerard Elias CF oedd y Comisiynydd Safonau<sup>4</sup> ("y Comisiynydd") drwy gydol y Pedwerydd Cynulliad. Yn ystod y Cynulliad hwn, mae wedi datblygu ac adeiladu ar rôl comisiynydd annibynnol fel y nodir ym Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009<sup>5</sup> ("y Mesur Safonau"). Mae'r Comisiynydd wedi rhoi cyngor clir a diduedd ar amrywiaeth eang o faterion safonau i'r Pwyllgor ac i Aelodau'r Cynulliad yn fwy cyffredinol. Mae wedi chwarae rôl allweddol o ran hwyluso a hyrwyddo trafodaethau ynghylch materion sy'n ymwneud â safonau i amrywiaeth o gynulleidfaedd drwy drafodaethau gyda grwpiau'r pleidiau, sefydlu a chynnal cyfres o ddarlithoedd ar fywyd cyhoeddus, a chymryd rhan yn y rhwydwaith safonau traws-seneddol.
7. Yn ogystal, cyflwynodd y Comisiynydd bedwar adroddiad blynyddol, sydd wedi rhoi crynodeb defnyddiol o'i waith a'r sicrwydd angenrheidiol yr ymdrinnir â chwynion sy'n cael eu cyflwyno, a hynny yn y modd mwyaf priodol. Fel rhan o'i adroddiad blynyddol 2011-2012, roedd y Comisiynydd yn cynnwys y weithdrefn wedi'i diweddarau ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad, a ddaeth i rym ym mis Mehefin 2012. Mae copi o'r weithdrefn hon ar gael ar dudalennau'r Pwyllgor.<sup>6</sup>
8. Hoffai'r Pwyllgor gofnodi'n ffurfiol ein diolch diffuant iawn am yr holl waith caled a wnaed gan y Comisiynydd yn ystod ei amser yn y swydd.
9. Daw cyfnod y Comisiynydd presennol i ben ym mis Tachwedd 2016. Mae'r broses recriwtio ar gyfer Comisiynydd newydd wedi cael ei chynnal. Yn ein cyfarfod Pwyllgor ar 8 Mawrth 2016, cynhaliodd y Pwyllgor wrandawriad cadarnhau<sup>7</sup> gyda'r Comisiynydd newydd arfaethedig, Syr Roderick Evans, CF a benodir o dan adran 1(2) o'r Mesur Safonau.

---

<sup>4</sup> Gerard Elias CF, Comisiynydd Safonau

<sup>5</sup> Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009

<sup>6</sup> Gweithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad (cymeradwywyd Gorffennaf 2013)

<sup>7</sup> Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Cofnod y Trafodion, 8 Mawrth 2016



## Adroddiadau i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9

10. Mae Rheol Sefydlog 22.2 yn datgan

*22.2 Rhaid i'r pwyllgor cyfrifol:*

*(i) ymchwilio i unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau, cyflwyno adroddiad arni ac, os yw'n briodol, argymhell camau mewn perthynas â bod Aelod heb gydymffurfio:*

*(a) â Rheol Sefydlog 2;*

*(b) ag unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad ynglŷn â buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill yr Aelodau;*

*(c) â Rheol Sefydlog 5;*

*(d) ag unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad ynglŷn â safonau ymddygiad yr Aelodau;*

*(e) ag unrhyw god neu brotocol a wnaed o dan Reol Sefydlog 1.10 ac yn unol ag adran 36(6) o'r Ddeddf;*

*(f) â Rheol Sefydlog 3; neu*

*(g) â Rheol Sefydlog 4;*

11. Mae Rheol Sefydlog 22.9 yn datgan:

*22.9 Os yw'r pwyllgor cyfrifol wedi ymchwilio i gŵyn a gyfeiriwyd ato gan y Comisiynydd Safonau, rhaid iddo gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad cyn gynted â phosibl ar ôl cwblhau'r ymchwiliad.*

12. Mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi pum adroddiad o dan Reol Sefydlog 22.9, yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Mae copiâu o'r adroddiadau hyn ar gael ar dudalennau'r Pwyllgor.<sup>8</sup>

13. Nododd y Pwyllgor yn un o'i adroddiadau nad oes sancsiynau digonol ar gael i'r Cynulliad, yn arbennig ynghylch materion yn ymwneud ag ymddygiad personol. Arweiniodd hyn at adolygiad o'r sancsiynau gan y Pwyllgor, fel rhan o'r adolygiad ehangach o'r gweithdrefnau safonau. Mae rhagor o wybodaeth am yr adolygiad hwn i'w gweld ym mhennod ganlynol yr adroddiad hwn.

---

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y pwyllgor nesaf sydd â chyfrifoldeb dros safonau ymddygiad yn parhau â'r arfer o adolygu sancsiynau a phwerau'r Pwyllgor yn anffurfiol ar ôl ystyried unrhyw gŵyn er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol ac yn addas at y diben.

---

<sup>8</sup> Adroddiadau'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad

# Adroddiadau'r Pwyllgor Safonau

## Adolygiad o'r gweithdrefnau safonau

14. Cytunodd y Pwyllgor ag adolygiad o weithdrefnau safonau'r Cynulliad yn 2011 yn dilyn cyngor gan y Comisiynydd. Y bwriad oedd diweddarau a symleiddio'r gweithdrefnau a chreu un cod.
15. Oherwydd bod cynghori'r Cynulliad ar faterion safonau yn rhan o gylch gorchwyl y Comisiynydd, cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Comisiynydd arwain yr adolygiad, gan ymgynghori â holl Aelodau'r Cynulliad ar adegau perthnasol. Cytunwyd i gynnal yr adolygiad mewn tri cham:
  - Cam 1 – Adolygiad o'r Weithdrefn Gwynion.
  - Cam 2 – Adolygiad o'r Cod Ymddygiad a'r Canllawiau Cysylltiedig.
  - Cam 3 – 'Codeiddio' yr holl weithdrefnau mewn un gyfrol hygyrch.
16. Ystyriodd y Pwyllgor fformat y codau ymddygiad mewn deddfwrfeydd eraill ym mis Mawrth 2012 a chytunodd ar fformat dymunol mewn pedair adran, i ymgorffori egwyddorion Nolan, a nodi'n glir:
  - 1) amrywiaeth o achosion posibl o dorri;
  - 2) y ddeddfwriaeth/Rheolau Sefydlog perthnasol;
  - 3) unrhyw ganllawiau a gyhoeddir; a'r
  - 4) ystod o sancsiynau sydd ar gael am achosion o dorri.
17. Cytunodd y Pwyllgor ar gopi o'r gyfrol yn ei gyfarfod ar 23 Chwefror 2016<sup>9</sup>.
18. Cytunodd y Pwyllgor hefyd y dylai fod rhywfaint o ddisgresiwn i Glerc y Cynulliad newid y ddogfen hon. Dylid hysbysu cadeirydd y pwyllgor cyfrifol am y newidiadau, a dylid darparu diweddariad blynyddol o unrhyw newidiadau i holl aelodau'r pwyllgor cyfrifol.

---

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y pwyllgor nesaf sydd â chyfrifoldeb dros safonau ymddygiad yn cytuno â'r trefniadau rheoli arfaethedig ar gyfer y casgliad yn gynnar yn y Cynulliad nesaf. Yna, dylai adolygu a yw'r ddogfen yn ddefnyddiol ac ystyried unrhyw newidiadau hanner ffordd drwy'r Cynulliad nesaf.

---

## Y weithdrefn gwynion.

19. Gwnaeth y Comisiynydd ddarn cychwynnol o waith i ystyried Gweithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad. Wrth gynnal yr adolygiad hwn, nod y Comisiynydd oedd:

*...diweddarau, symleiddio a hwyluso gweithdrefnau, heb gyfaddawdu'r angen i fod yn agored ac i gyfiawnder naturiol fod yn drech. Yn ogystal, fy mwriad oedd gwneud y weithdrefn yn llai cymhleth ac yn haws i'w deall, i'r Aelodau ac i'r cyhoedd.<sup>10</sup>*

---

<sup>9</sup> Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Agenda 23 Chwefror 2016

<sup>10</sup> Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Safonau 2011-12 (tudalen 6)

20. Cynhaliodd y Comisiynydd ymgynghoriad eang i gasglu safbwyntiau partïon perthnasol, a nodi arfer gorau yn y maes hwn. Daeth y weithdrefn gwynion ddiwygiedig i rym o ddiwedd mis Mehefin 2012.<sup>11</sup>

## Sanctsiynau

21. Fel rhan o'r adolygiad o'r gweithdrefnau safonau, bu'r Pwyllgor yn ystyried yr ystod o sanctsiynau a oedd ganddo i'w defnyddio. Barnwyd bod yr adolygiad hwn yn bwysig yn dilyn adolygiad o'r gweithdrefnau yn deillio o gŵyn a gyfeiriwyd gan y Comisiynydd, a oedd yn codi cwestiynau ynghylch a oedd yr amrywiaeth o sanctsiynau ar gael yn briodol o eang, yn enwedig mewn perthynas ag achosion o dorri safonau ymddygiad personol, yn hytrach nag achosion o dorri safonau ynghylch buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill.
22. Ystyriodd y Pwyllgor arferion mewn deddfwrfeydd eraill, safbwyntiau'r pleidiau gwleidyddol yn y Cynulliad a swyddogion yng Nghomisiwn y Cynulliad. Cynigiodd y Pwyllgor ymestyn yr amrywiaeth o sanctsiynau, gan nodi ei fod yn gwneud hynny gyda'r gobaith a'r disgwyliad mai anaml y byddai angen eu harfer, os o gwbl.
23. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cyflwyno'r newidiadau canlynol:
- Dull hyblyg ar gyfer ymestyn y darpariaethau o dan Reol Sefydlog 2.10 (mewn perthynas â gwahardd o'r Cynulliad) i achosion o dorri agweddau eraill ar y Cod Ymddygiad, heb nodi unrhyw isafswm nac uchafswm y cyfnod o waharddiad yn y Rheolau Sefydlog.
  - Bod y Rheolau Sefydlog ond yn parhau i gyfeirio at dynnu cyflog Aelodau yn ôl, ac nid at unrhyw lwfans arall, a bod y weithdrefn gwynion yn nodi'n glir na ddylai unrhyw sanctsiynau gosbi staff cymorth yr Aelodau.
  - Bod darpariaeth yn cael ei chynnwys yn y Rheolau Sefydlog yn nodi bod gan y Pwyllgor ddisgresiwn i argymhell tynnu hawliau a breintiau yn ôl, ar wahân i dynnu cyflog yn ôl. Gallai'r cyfryw hawliau a breintiau gynnwys tynnu hawl mynediad yn ôl, fel hawl mynediad Aelod i ystâd y Cynulliad, gwaharddiad o weithgareddau eraill y gallai Aelod fod â hawl i'w mynychu a chael gwared ar yr holl freintiau seremonïol a breintiau cysylltiedig a fyddai gan Aelod fel arfer.
24. Hyd yma, ni fu'n rhaid i'r Pwyllgor ddefnyddio'r sanctsiynau estynedig, ond mae'n credu bod y newidiadau a wnaed yn angenrheidiol ac y dylid parhau â nhw. Fel gyda phob newid, mae'r Pwyllgor yn credu y dylid adolygu hyn yn ddiweddarach.

## Lobïo a grwpiau trawsbleidiol

25. Ysgrifennodd y Llywydd at y Pwyllgor ym mis Mai 2012 ynghylch lobïo, gan ofyn i'r Pwyllgor:

*gynnal adolygiad i ystyried y drefn (lobïo), a gwneud argymhellion i mi, os oes angen, ynghylch unrhyw drefniadau ychwanegol a allai fod eu hangen i gryfhau'r drefn.<sup>12</sup>*

---

<sup>11</sup> Gweithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad (cymeradwywyd Gorffennaf 2013)

<sup>12</sup> Adroddiad 03-13 i'r Cynulliad ar Lobïo a Grwpiau Trawsbleidiol (Mai 2013)

- 26.** Fel rhan o'r adolygiad hwn, ystyriwyd hefyd pa mor ddigonol yw'r trefniadau ar gyfer grwpiau trawsbleidiol. Roedd cylch gorchwyl yr ymchwiliad fel a ganlyn:
- *asesu a yw trefniadau presennol y Cynulliad ynghylch lobïo yn ddigon cadarn ac addas i'r diben ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad;*
  - *gwneud argymhellion i'r Llywydd, Comisiwn y Cynulliad a/neu'r Pwyllgor Busnes am unrhyw fesurau pellach, naill ai mesurau deddfwriaethol neu anneddfwriaethol, y dylid eu hystyried i reoleiddio gweithgareddau lobïo mewn perthynas ag Aelodau Cynulliad unigol;*
  - *cynghori'r Llywydd am ganfyddiadau'r Pwyllgor mewn perthynas â'r trefniadau presennol sy'n rheoli dull y grwpiau trawsbleidiol o weithio.*
- 27.** Wrth ystyried yr ymchwiliad hwn, cynhaliodd y Comisiynydd ymgynghoriad eang, a daeth i'r casgliad bod y trefniadau sydd ar waith i reoleiddio'r ffordd y caiff Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu lobïo yn eu hanfod yn ddigon cadarn ac addas i'r diben.
- 28.** Cytunodd y Pwyllgor â chanfyddiadau'r Comisiynydd, a gwnaeth argymhellion i atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer y dyfodol. Roedd gwaith y Pwyllgor yn canolbwyntio ar weithgarwch lobïo, yn hytrach nac ar lobïwyr, gan fod hyn yn haws i'w ddiffinio yn hytrach na diffinio'r ffordd y mae 60 o Aelodau yn rhyngweithio ag amrywiaeth eang o gynrychiolwyr o gymdeithas ddinesig Cymru.
- 29.** Drwy ei argymhellion, ceisiodd y Pwyllgor gyflwyno dull sy'n benodol i Gymru ar gyfer mynd i'r afael â gweithgarwch lobïo. Roedd y Pwyllgor yn credu bod angen tryloywder ynghylch cyfarfodydd lobïwyr proffesiynol heb unrhyw faich diangen ar y pwrs cyhoeddus. Roedd y Pwyllgor yn argymhell bod y Cynulliad yn mabwysiadu canllawiau ar lobïo a mynediad at Aelodau<sup>13</sup>, a gwnaeth y Cynulliad hyn drwy benderfyniad ar 26 Mehefin 2013<sup>14</sup>. Argymhellodd y Pwyllgor hefyd y dylai'r Llywydd adolygu'r canllawiau hyn bob tair blynedd.
- 30.** Mae datblygiadau wedi bod yn y DU ers cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor, sef y pasiodd San Steffan Ddeddf Tryloywder Lobïo, Ymgyrchu gan Grwpiau Di-blaid a Gweinyddu Undebau Llafur 2014<sup>15</sup>. Cyflwynodd Llywodraeth yr Alban Fil Lobïo (yr Alban)<sup>16</sup> ym mis Hydref 2015, gyda'r nod o gynyddu tryloywder cyhoeddus. Fe'i pasiodd ar 10 Mawrth 2016.

---

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r pwyllgor nesaf sydd â chyfrifoldeb am Safonau Ymddygiad ystyried sut y mae deddfwriaeth y DU a deddfwriaeth yr Alban yn gweithredu, a'r dull gweithredu yng Ngogledd Iwerddon, mewn perthynas â lobïo, ac a ydynt yn cyflawni'r nod o wella tryloywder.

---

- 31.** Hefyd, cynigiodd adroddiad y Pwyllgor fod rheolau cryfach yn cael eu cyflwyno ar gyfer dull gweithredu grwpiau trawsbleidiol yn y Cynulliad. Ei argymhelliad oedd, er y dylai'r grwpiau hyn aros y tu allan i gwmpas y Rheolau Sefydlog, bod angen gwella atebolrwydd.

<sup>13</sup> Canllawiau ar Lobïo a Mynediad at Aelodau'r Cynulliad (Mai 2013)

<sup>14</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion o'r Cyfarfod Llawn, 26 Mehefin 2013

<sup>15</sup> Deddf Tryloywder Lobïo, Ymgyrchu gan Grwpiau Di-blaid a Gweinyddu Undebau Llafur 2014

<sup>16</sup> Bil Lobïo (yr Alban)

32. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, mae'r Swyddfa Gyflwyno yn llunio adroddiad blynyddol ar nifer y grwpiau, ac a ydynt yn cadw at y rheolau a nodir yn yr adroddiad. Cyflwynir yr adroddiadau hyn i'r Llywydd ac i'r Pwyllgor.
33. Yn dilyn yr adroddiad blynyddol terfynol ar grwpiau trawsbleidiol y Pedwerydd Cynulliad, ysgrifennodd y Llywydd at y Pwyllgor gyda rhai diwygiadau arfaethedig i'r rheolau ar ddull gweithredu'r grwpiau hyn. Ystyriodd a chytunodd y Pwyllgor â'r rhain, a chynigiodd hefyd y gwelliannau canlynol i'r rheolau:
- Dylai'r cyfarfod blynyddol ar gyfer grwpiau trawsbleidiol fod o fewn cyfnod o 13 mis ac nid 12 mis fel y mae ar hyn o bryd. Byddai hyn yn sicrhau bod y baich gweinyddol yn parhau i fod yn rhesymol, oherwydd y byddai'n sicrhau o leiaf blwyddyn rhwng cyfarfodydd.
  - Dylai grwpiau trawsbleidiol allu gofyn am estyniad o hyd at fis i'r gofynion am adroddiad blynyddol/cyfarfod blynyddol drwy ysgrifennu at y Swyddfa Gyflwyno.
  - Dylid gallu creu grwpiau trawsbleidiol yn ystod 12 mis olaf y Cynulliad cyn y diddymiad, ond byddai angen i unrhyw grŵp a sefydlir yn y cyfnod hwn gynnal cyfarfod blynyddol o hyd.
34. Mae'r Pwyllgor yn credu bod monitro blynyddol yn bwysig ac y dylai barhau yn y Cynulliad nesaf.

---

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r pwyllgor nesaf â chyfrifoldeb am safonau ymddygiad adolygu'r rheolau ar gyfer grwpiau trawsbleidiol, ac y dylai'r Pwyllgor ystyried argymhellion y Llywydd i egluro'r rheolau mewn perthynas â grwpiau trawsbleidiol.

---

## Cofrestru a datgan buddiannau

35. Ym mis Hydref 2014, cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ar gofrestru a datgan buddiannau'r Aelodau. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod hwn yn faes pwysig i'w ystyried, gan na fu unrhyw ddiweddariadau pwysig i'r rheolau ers 2006.
36. Gwnaeth y Pwyllgor gyfres o argymhellion i ddiweddarau'r gofynion ar gyfer cofrestru a datgan buddiannau perthnasol, y cytunodd y Pwyllgor Busnes arnynt, ac a ddaeth i rym ar 1 Medi 2015.
37. O bwys arbennig oedd y newidiadau a wnaed mewn perthynas â'r cwmpas ar gyfer datganiadau llafar. Roedd y Comisiynydd yn dadlau bod yr angen i ddatgan yn rhy gyfyng ac y gallai atal y cyhoedd, yn anfwriadol, rhag cael gwybod am fuddiannau y dylid eu datgelu. Roedd y Comisiynydd yn awgrymu y dylid newid y prawf perthnasedd yn Rheol Sefydlog 2.7 o 'fwy nag a allai ddeillio i **bersonau y mae'r penderfyniad yn effeithio arnynt yn gyffredinol**' i 'fwy nag a allai ddeillio i'r **etholwyr yn gyffredinol**'. Byddai hyn felly'n cynnwys enghreifftiau lle y mae Aelod yn rhan o grŵp lleiafrifol a fyddai'n cael budd o ddarn penodol o ddeddfwriaeth.
38. Os oes gan Aelod fuddiant cofrestradwy y mae'n ofynnol ei fod yn ei ddatgan, ni chaniateir i'r Aelod bleidleisio o dan Reol Sefydlog 2.9. Mae cymryd rhan mewn trafodion heb gydymffurfio â'r gofynion hyn yn drosedd fel y nodir yn Adran 36(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.<sup>17</sup>
39. Yn ogystal â newidiadau i'r rheolau ar ddatgan 'buddiannau cofrestradwy', mae'r newidiadau'n cynnwys creu Rheol Sefydlog newydd, nad yw'n destun cosb droseddol, bod Aelodau'n

---

<sup>17</sup> Deddf Llywodraeth Cymru 2006

gwneud datganiad ar lafar ynghylch unrhyw fuddiannau perthnasol sydd gan yr Aelod, neu aelod o deulu'r Aelod, neu y mae'n disgwyl eu cael mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n codi yn ystod y trafodion hynny. Yn yr achos hwn, ystyr 'unrhyw fuddiant perthnasol' yw buddiant yr ystyrir yn rhesymol gan eraill ei fod yn dylanwadu ar gyfraniad yr Aelod i ddatl neu drafodaeth. Nodir y gofynion newydd hyn yn y Rheolau Sefydlog 13.8A, 13.8B, 17.24A ac 17.24B, a dylid eu gwneud ar adeg briodol yn nhrefodion y Pwyllgor neu'r Cyfarfod Llawn.

40. Mae cyflwyno'r gofyniad i ddatgan buddiannau perthnasol wedi cynyddu'r achosion lle y mae'n ofynnol i Aelodau wneud datganiadau llafar yn ystod trafodion y Cynulliad. Er nad yw achosion o ddiffyg cydymffurfio o dan y gofyniad newydd hwn yn destun cosbau troseddol, ac nad ydynt yn arwain at unrhyw gyfyngiadau ar bleidleisio, gall y Comisiynydd ymchwilio i unrhyw gŵyn a wnaed ynglŷn â diffyg cydymffurfiaeth Aelod â'r gofynion newydd. Felly, gallai fod yn ddoeth i Bwyllgor Safonau yn y dyfodol adolygu'r gofyniad hwn, gan ystyried a yw'n cyflawni'r nod o wella tryloywder neu a yw'n creu baich diangen.
41. Ochr yn ochr â'r newidiadau y cytunwyd arnynt i gofrestru a datgan buddiannau, gwnaeth yr adroddiad ddau argymhelliad pellach sydd ar y gweill o hyd.

*Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiynydd Safonau yn trafod y cynnig ar gyfer defnyddio'r mecanwaith dan Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006 i gael gwared ar y gofyniad 'cofrestriad dwbl' gyda'r cyrff perthnasol ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad maes o law.*

*Argymhelliad 15. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiynydd Safonau yn trafod y cynnig ar gyfer cyflwyno person annibynnol i ystyried achosion o dorri Rheol Sefydlog 2 gyda'r cyrff perthnasol yn y lle cyntaf ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad maes o law.*

42. Cyfarfu swyddogion y Cynulliad â'r Comisiwn Etholiadol ym mis Rhagfyr 2015 i drafod yr opsiynau ar gyfer cael gwared ar y 'cofrestriad dwbl'. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen i bwyllgor yn y dyfodol ymgymryd â darn o waith yn mapio rheolau'r Cynulliad ar gofrestru buddiannau Aelodau gyda'r darpariaethau a nodir yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

---

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y pwyllgor nesaf sydd â chyfrifoldeb am Safonau Ymddygiad yn parhau â'r gwaith i gael gwared ar y gofyniad 'cofrestriad dwbl'.

---

43. Nod Argymhelliad 15 oedd cyflwyno elfen o gymesuredd i'r system wrth ymdrin ag achosion 'dibwys' o ddiffyg cydymffurfio (e.e. pan fydd Aelod yn cofrestru manylion ar ôl y terfyn amser o 4 wythnos). Mae'r Comisiynydd wedi bwrw ymlaen â hyn gyda'r Adran Erlyniadau Cyhoeddus a swyddogion y Cynulliad ac wedi llunio protocol i ymdrin â hyn. Bwriad cychwynnol y Pwyllgor oedd mai'r 'person annibynnol' yn yr achos hwn fyddai'r Comisiynydd, ond mae hyn yn rhywbeth y gallai Pwyllgor yn y dyfodol ddymuno ei drafod gyda'r Comisiynydd nesaf, o ran ymarferoldeb.

---

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r protocol ar gyfer hysbysu am achosion o dorri Rheol Sefydlog 2 ddod i rym ym mis Mai 2016. Efallai yr hoffai'r Pwyllgor nesaf â chyfrifoldeb am Safonau Ymddygiad adolygu effeithiolrwydd y protocol hwn yn y Cynulliad nesaf.

---

# Edrych tuag at y Pumed Cynulliad

44. Yn yr adroddiad etifeddiaeth hwn, gwnaed nifer o argymhellion y gallai'r Pwyllgor nesaf â chyfrifoldeb am Safonau Ymddygiad fod eisiau bwrw ymlaen â nhw mewn perthynas â'i waith blaenorol. Mae yna ddau faes pellach y mae'r Pwyllgor yn awgrymu y dylai'r Pwyllgor nesaf eu hystyried.

## Y cyfryngau cymdeithasol

45. Trafododd y Pwyllgor bapur ar y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol ar 2 Chwefror 2016.
46. Wrth ystyried y mater hwn, nododd y Pwyllgor fod 'Canllawiau ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol' yn rhan o God Ymddygiad Aelodau Senedd yr Alban, ac mae'n credu y byddai hyn yn arweiniad defnyddiol i'r Aelodau etholedig.
47. Yn ogystal, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad *The Speaker's Commission on Digital Democracy*, a gyhoeddwyd yn 2015, a gomisiynodd y Sefydliad Siartredig Cysylltiadau Cyhoeddus ac a argymhellodd ganllawiau i wleidyddion ar ddefnyddio Twitter.<sup>18</sup> Nododd y Pwyllgor y cafodd hyn gryn dipyn o sylw yn y cyfryngau.<sup>19</sup>
48. Wrth ystyried y defnydd o gyfryngau cymdeithasol, roedd y Pwyllgor yn credu y dylai'r Cynulliad osod canllawiau ar gyfryngau cymdeithasol sy'n eistedd ar wahân i'r polisi TGCh ac yn atgoffa Aelodau bod y cyfryngau cymdeithasol yn wybodaeth gyhoeddedig. Gallai'r polisi hefyd gynnwys cyngor diogelwch a rhoi eglurder ynghylch y defnydd o adnoddau'r Cynulliad.
49. Yn ogystal, roedd yr Aelodau'n credu canllawiau i staff cymorth yr Aelodau sy'n trydar ar ran Aelod fod yn fuddiol.

---

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn credu y gallai canllawiau mewn perthynas â'r cyfryngau cymdeithasol fod yn ddogfen ddefnyddiol ac mae'n argymhell bod y Pwyllgor nesaf â chyfrifoldeb am faterion safonau yn gwneud darn o waith i ystyried rhinweddau'r canllawiau yn y maes hwn ymhellach.

---

## Canllawiau i Aelodau sy'n ymwneud â materion cynllunio.

50. Ystyriodd y Comisiynydd Safonau nifer o gwynion mewn perthynas â chyfraniad Aelodau at faterion cynllunio. Roedd yn credu bod hwn yn faes a allai elwa o rai canllawiau arferion gorau, gan dynnu sylw arbennig at yr angen i fod yn dryloyw. Ni fwriwyd ymlaen â hyn nes i waith y Pwyllgor ar gofrestru a datgan buddiannau gael ei gwblhau, ond mae'n faes y gallai'r Pwyllgor fod eisiau i'r Comisiynydd newydd ymgymryd ag ef.

---

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiynydd yn ymgymryd â darn o waith i lunio rhai canllawiau arfer gorau i Aelodau sy'n ymwneud â materion cynllunio.

---

<sup>18</sup> Comisiwn Democratiaeth Ddigidol y Llefarydd: **Canllawiau i wleidyddion ar ddefnyddio Twitter** – Aelodau'r Senedd ac Aelodau Tŷ'r Arglwyddi, Sefydliad Siartredig Cysylltiadau Cyhoeddus

<sup>19</sup> Erthygl yn INFLUENCE, **'Twitter advice for MPs is good advice for everyone'**, 22 Gorffennaf 2015